# CYMDEITHAS EDWARD LLWYD

England & Wales · Charity number 1126027

## Details

| | |
|---|---|
| **Status** | Registered |
| **Legal form** | Other |
| **Registered** | 2008-09-23 |
| **Register** | View on the Charity Commission register |

## Contact

| | |
|---|---|
| **Address** | 8 Birkdale<br>Warmley<br>Bristol<br>BS30 8GH |
| **Phone** | 07341 623175 |
| **Email** | ysgrifennydd@cymdeithasedwardllwyd.cymru |
| **Website** | www.cymdeithasedwardllwyd.cymru |

## Activities

**Objects:** HYRWYDDO ADDYSG ER BUDD Y CYHOEDD DRWY:(A) ASTUDIAETH O BLANHIGION, ANIFEILIAID, A THIRFFURFIAU CYMRU, A'R BERTHYNAS RHYNGDDYNT(B) YMWYBYDDIAETH O AMGYLCHEDD A THREFTADAETH NATURIOL CYMRU, A GWEITHIO DROS EI GWARCHOD(C) ASTUDIAETH O YRFA EDWARD LLWYD A'I DDYSG YM MEUSYDD BOTANEG, DAEAREG, ARCHEOLEG A HANES

**Activities:** GWEITHGAREDDAU NATURIAETHOL A HANESYDDOL GYDOL Y FLWYDDYN DRWY GYMRU. TREFNU CYNHADLEDDAU NATURIAETHOL AC AMGYLCHEDDOL. STONDIN YN YR EISTEDDFOD GENEDLAETHOL. CYNNAL GWEFAN Y GYMDEITHAS A GWEFAN LLEN NATUR (WWW.LLENNATUR.CYMRU). TRAWSGRIFIO A DADANSODDI HEN DDYDDIADURON I WEFAN LLEN NATUR. BATHU RHESTR O ENWAU CYMRAEG AR FFYNGAU I'W CYHOEDDI. CYHOEDDI DAU GYLCHGRAWN, Y NATURIAETHWR A LLEN NATUR

Downloaded from opencharities.uk/ew/1126027

## Classification

- **How:** Makes Grants To Individuals, Provides Human Resources, Provides Services, Provides Advocacy/advice/information, Sponsors Or Undertakes Research
- **What:** Education/training, Arts/culture/heritage/science, Environment/conservation/heritage
- **Who:** Children/young People, Elderly/old People, Other Charities Or Voluntary Bodies, The General Public/mankind

## Geography

- **Area of benefit:** UNDEFINED. IN PRACTICE, LOCAL
- Throughout Wales

## Finances

| Period end | Income | Expenditure | Assets | Employees |
|---|---|---|---|---|
| 2025-06-30 | £39,993 | £48,026 | - | - |
| 2024-06-30 | £26,384 | £31,587 | - | - |
| 2023-06-30 | £32,739 | £33,912 | - | - |
| 2022-06-30 | £19,337 | £21,948 | - | - |
| 2021-06-30 | £14,873 | £9,950 | - | - |

Downloaded from opencharities.uk/ew/1126027

## Trustees

| Name | Role | Appointed |
|---|---|---|
| **IONA EVANS** | Chair | 2016-09-17 |
| ALAN ROY WILLIAMS | | |
| Amanda Skull | | 2023-11-16 |
| DAFYDD VAUGHAN LEWIS | | 2017-09-15 |
| DR GORONWY WYNNE | | 2017-09-16 |
| DUNCAN JEFFREY BROWN | | |
| David Griffiths | | 2023-11-16 |
| Dilys Elen Owen BA | | 2024-10-05 |
| Dominig Kervegant | | 2022-05-19 |
| Dr HYWEL MADOG JONES | | 2014-09-27 |
| EIRIAN DAVIES | | |
| Eurgain Jones | | 2024-10-05 |
| Gareth Wyn Jones | | 2015-09-19 |
| Gwyn Roberts | | 2019-03-06 |
| IWAN RHYS ROBERTS | | |
| Jackie Willmington | | 2015-11-12 |
| John Griffith | | 2017-02-16 |
| MARGARET ELIZABETH ROBERTS | | 2014-02-03 |
| Rhisiart ap Gwilym | | 2022-10-29 |
| Robert Evan Jones | | 2025-10-04 |
| Shelagh Fishlock | | 2024-02-15 |
| TWM ELIAS | | |

Downloaded from opencharities.uk/ew/1126027

# Accounts

Cymdeithas Edward Llwyd

Cymdeithas Genedlaethol Naturiaethwyr Cymru

Elusen Gofrestredig rhif 1126027

**ADRODDIAD I'R COMISIWN ELUSENNAU**

**AM Y CYFNOD 01.07.2024 I 30.06.2025**

**ENW'R GYMDEITHAS**: **CYMDEITHAS EDWARD LLWYD**

**RHIF COFRESTRU: 1126027**

**1. ENWAU YMDDIRIEDOLWYR:**

| | |
|---|---|
| 1 Goronwy Wynne: | Llywydd |
| 2. Duncan Brown: | Is Lywydd |
| 3. Twm Elias: | Is Lywydd |
| 4. Iona Evans: | Cadeirydd |
| 5. Shelagh Fishlock | Ysgrifennydd |
| 6. Amanda Skull : | Trysorydd |
| 7. Margaret Roberts | Cyd- Drysorydd tan fis Tachwedd 2024 |
| 8. Hywel Madog Jones: | Cadeirydd y Pwyllgor Marchnata |
| 9. Jackie Willmington: | Ysgrifennydd Cofnodion |
| 10. Elizabeth Roberts: | Trefnydd y Gynhadledd |
| 11. Gwyn Roberts: | Golygydd y Cylchlythyr |
| 12. Dafydd Lewis: | Ysgrifennydd Aelodaeth a Golygydd y Naturiaethwr |
| 13. Iwan Roberts: | Trefnydd teithiau'r Gogledd Ddwyrain |
| 14. Eirian Davies: | Trefnydd teithiau'r De a'r Canolbarth tan 31 12 2025 ac wedyn yn dal i fod yn aelod o'r Pwyllgor Gwaith |
| 15. Gareth Wyn Jones: | Trefnydd teithiau'r De a'r Canolbarth o 01 01 2025 |
| 16. John Griffith: | Cyd drefnydd teithiau Gogledd Orllewin a Threfnydd Gwyliau |
| 16. Haf Meredydd: | Aelod o'r Pwyllgor.Gwaith |
| 17. Rhisiart ap Gwilym: | Aelod o'r Pwyllgor.Gwaith |
| 18. Alan Williams: | Aelod o'r Pwyllgor.Gwaith |
| 19. Dominig Kervegant | Aelod o'r Pwyllgor.Gwaith |
| 20. Elen Owen | Aelod o'r Pwyllgor.Gwaith |
| 21. Eurgain Jones | Aelod o'r Pwyllgor.Gwaith |

Yr oedd swydd yr Is-gadeirydd yn wag.

## 2. STRWYTHUR, LLYWODRAETHU A RHEOLIAETH

**i) Yr ymddiriedolwyr a sut y byddant yn cael eu penodi.**

Mae'r Ymddiriedolwyr i gyd yn aelodau o'r Gymdeithas ac fe'u hetholir yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Ni chaiff Ymddiriedolwyr eu talu.

Ym mis Hydref bob blwyddyn cynhelir Cyfarfod Blynyddol fel rhan o benwythnos Cynhadledd y Gymdeithas. Mae pob aelod yn derbyn manylion trwy'r post am y penwythnos gyda chyfle i gofrestru. Cynhelir y Cyfarfod Blynyddol ar brynhawn Sadwrn y Gynhadledd. Anfonir manylion am y cyfarfod at yr aelodau sydd wedi cofrestru pythefnos ymlaen llaw gan gynnwys yr agenda a chofnodion Cyfarfod y flwyddyn gynt. Rhoddir dogfennau hefyd ar wefan a thudalen Weplyfr y Gymdeithas ac mae ychydig o gopïau caled ar gael yn y Cyfarfod.

Cyn y Cyfarfod Blynyddol mae'r Ysgrifennydd yn cysylltu â'r holl ymddiriedolwyr i ofyn a ydynt yn fodlon cael eu hailethol i'r Pwyllgor Gwaith a dal ati gyda'i swydd lle bo'n berthnasol.

**ii) Y Pwyllgor Gwaith (PG)**

Mae'r Ymddiriedolwyr yn aelodau o'r Pwyllgor Gwaith (PG) sydd yn rheoli'r Gymdeithas ar ran yr aelodau.
Cynhelir pedwar cyfarfod o'r PG bob blwyddyn.

Bydd yr Ysgrifennydd yn anfon cais i'r holl ymddiriedolwyr am eitemau i'w rhoi ar agenda'r cyfarfod yna bydd yr agenda yn cael ei rannu cyn y cyfarfod fel bod pob aelod yn cael cyfle i gyfrannu. Bydd Cadeirydd y Gymdeithas yn llywio'r cyfarfodydd. Mae cofnodion manwl yn cael eu cadw o bob cyfarfod gan yr Ysgrifennydd Cofnodion ac yn cael eu hanfon i'r holl Ymddiriedolwyr. Yn y PG dilynol bydd cyfle i gytuno fod y cofnodion yn rhai cywir ac yna eu cyhoeddi ar wefan y Gymdeithas.
Os bydd y Swyddogion angen barn aelodau'r PG ar fater brys bydd modd cysylltu gyda phob aelod trwy e-bost a hynny fel arfer dan arweiniad yr Ysgrifennydd.

**iii) Yr Is-bwyllgor Marchnata (PM)**

Mae grŵp o aelodau'r PG yn ffurfio is-bwyllgor dan arweiniad Cadeirydd y PM sy'n adrodd yn ôl i'r PG. Prif bwrpas y PM yw paratoi presenoldeb y Gymdeithas yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

**iv) Prosiect Llên Natur**

Mae Prosiect Llên Natur yn adnodd pwysig dan adain Y Gymdeithas. Mae ychydig o aelodau'r PG yn rheoli prosiect Llên Natur ac yn adrodd yn ôl i'r PG. Mae'r Prosiect yn codi ymwybyddiaeth o faterion amgylcheddol ymhlith y cyhoedd (yn ogystal ag aelodau'r Gymdeithas) drwy gynnal gwefan a thudalen Weplyfr a chyhoeddi bwletin a ddosbarthir drwy e-bost.

## 3. AMCANION A GWEITHGAREDDAU'R GYMDEITHAS.

Mae'r Gymdeithas yn croesawu pawb sydd â diddordeb ym myd natur ac yn yr amgylchedd a threftadaeth naturiol Cymru. Ei hamcan yw cynyddu ymwybyddiaeth, dealltwriaeth a gwerthfawrogiad ohonynt. Cymraeg yw iaith y Gymdeithas. Ymdrechir i hybu'r defnydd o Gymraeg yn y meysydd amgylcheddol a rhoddir croeso i aelodau sy'n dysgu Cymraeg.

- Cynhelir teithiau maes, Cynhadledd Flynyddol, stondin a darlith yn yr Eisteddfod Genedlaethol a gwyliau.
- Cyhoeddir dau gylchgrawn, y Cylchlythyr a'r Naturiaethwr.
- Cynhelir dwy wefan, un yn delio â gweithgareddau'r Gymdeithas a'r llall yn trin materion amgylcheddol.
- Ymgymerir â thrawsgrifio a dadansoddir hen ddyddiaduron gyda chynnwys perthnasol i fyd natur a'r amgylchedd.
- Cyhoeddir rhestrau o enwau Cymraeg safonol ar rywogaethau.

**4. CYFLAWNIADAU A PHERFFORMIAD**

**i) Teithiau Maes** Cynhaliwyd tair taith faes bron bob Sadwrn mewn tri lleoliad yng Nghymru. Cyhoeddir manylion y teithiau, gan gynnwys y man cyfarfod, fesul mis drwy wefan ac ap ffôn symudol y Gymdeithas. Cynhaliwyd ambell daith ychwanegol yng nghanol yr wythnos neu gyda'r nos yn ystod yr haf.

Cafwyd y teithiau eu harwain gan aelodau'r Gymdeithas a hefyd gan staff mudiadau sydd yn ymwneud a byd natur megis y Parciau Cenedlaethol ac Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru. Ar ddiwedd y teithiau cafodd hanes a lluniau eu rhannu ar dudalen Weplyfr y Gymdeithas. Cafwyd ymateb ffafriol I'r lluniau a hanes y teithiau gan sawl aelod a hefyd nifer nad ydynt yn aelodau.

**ii) Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf** Darparwyd safle ar faes yr Eisteddfod ym mis Awst 2024. Roedd yn gyfle i ddenu aelodau newydd, i ddarparu paned a chroeso i unrhyw un fyddai'n ymweld â'r babell ac yn hyrwyddo'r Gymdeithas i bawb oedd yn ymweld. Dangoswyd posteri a baratowyd i gynyddu gwybodaeth am hanes a bywyd gwyllt yr ardal.

Traddodwyd darlith y Gymdeithas gan yr Athro Siwan Davies o Brifysgol Abertawe ynglŷn â'r argyfwng hinsawdd. Derbyniwyd adborth ffafriol.

Cynigiwyd taith faes yn ardal Pontypridd a oedd ar agor i'r cyhoedd.

Cynhaliwyd cystadleuaeth dan adain yr Eisteddfod am erthygl addas i'r Naturiaethwr. Mae'r Gymdeithas yn cynnig £200 o wobr.

**iii) Gwyliau'r Gymdeithas** Anfonwyd manylion i holl aelodau'r Gymdeithas am y gwyliau a drefnwyd yng Washington Tyne and Wear ym mis Mai 2025.. Bu 39 aelod yn aros yn y gwesty. Cafwyd wythnos o deithiau yn ardaloedd Mur Hadrian ac arfordir Northumberland, gan gynnwys Gwarchodfa Natur Annstead. Cynigiwyd hefyd gyfle i ymweld â Gerddi Botaneg Prifysgol Durham. Rhoddodd aelodau sgyrsiau am ddaeareg a hanes yr ardal. Mae'r teithwyr yn talu cost lawn y gwyliau; nid oes cost net i'r Gymdeithas.

Cynhaliwyd penwythnos hir yn ardal Y Fenni ym mis Medi 2024 gyda phedair taith gan gynnwys dydd dros y ffin yn Swydd Henffordd yn ymweld â hen eglwysi, er enghraifft Eglwys Sant Beuno.

**iv) Y Gynhadledd Flynyddol** Cynhaliwyd Cynhadledd yng ngwesty'r Faenol Fawr ym Modelwyddan ar benwythnos 4– 6 Hydref 2024. Bu sgwrs am fywyd gwyllt Mynydd Hiraethog nos Wener, dewis rhwng dwy daith faes ddydd Sadwrn a sgwrs nos Sadwrn am briddoedd y Pegynau. Fore Sul cerddodd aelodau ar lannau afon Clwyd yn gwylio adar dan arweiniad arbenigwr. Bu 23 aelod yn bresennol yn y Cyfarfod Blynyddol brynhawn Sadwrn 5 Hydref.

**v) Pwyllgorau**

**a. Pwyllgor Gwaith** Cynhaliwyd cyfarfodydd rhithiol ar 18 Medi 2024, 21 Tachwedd 2024, 20 Chwefror 2025 a 8 Mai 2025.

**b**. **Is-bwyllgor Marchnata (PM)** Cynhaliwyd cyfarfod byr ar 3 Gorffennaf 2024 i gwblhau paratoadau ar gyfer Eisteddfod Rhondda Cynon Taf a chyfarfodydd llawn ar 27 Chwefror, 3 Ebrill, 22 Mai a 26 Mehefin 2025 wrth paratoi ar gyfer Eisteddfod Wrecsam.

Mae'r PM wedi cychwyn y broses o sefydlu gwell dealltwriaeth rhwng y Gymdeithas a'r Eisteddfod er mwyn cael mwy o fydd o'r Gystadleuaeth. Cysylltwyd â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol gyda'r gobaith o fagu cysylltiad agosach yn y dyfodol.

**vi) Y Cylchlythyr** Cynhyrchwyd dau rifyn o'r Cylchlythyr yn Haf 2024 a Chwefror 2025. Mae pob rhifyn yn llawn hanesion y teithiau a gynhaliwyd yn ystod y chwe mis blaenorol yn ogystal ag ambell eitem yn rhoi rhagflas o weithgareddau i ddod. Mae'n gylchgrawn deniadol a swmpus sydd yn lliwgar iawn ac yn cael ei anfon i bob aelod drwy law'r argraffwyr, Gwasg Y Lolfa.

**vii) Y Naturiaethwr** Cynhyrchwyd un rhifyn o'r cylchgrawn *Y Naturiaethwr* yn ystod y flwyddyn a'i ddosbarthu'r un pryd â'r Cylchlythyr. Mae'r *Naturiaethwr* yn llawn erthyglau difyr am bob agwedd o fyd natur gyda chyfle i unrhyw aelod gyfrannu. Yn y tudalennau canol ceir detholiad o eitemau o fwletin Llên Natur "Glas". Dyfarnwyd gwobr am erthygl i'r Naturiaethwr gan ddysgwr y Gymraeg.

**viii) Prosiect Llên Natur** Dosbarthir Bwletin Prosiect Llên Natur "Glas" drwy e-bost i unrhyw un sy'n cofrestru, boed yn aelod o'r Gymdeithas ai peidio. Cynhyrchwyd 12 rhifyn yn ystod y flwyddyn.

Mae miloedd o bobl yn dilyn "Cymuned Llên Natur", grŵp Weplyfr Prosiect Llên Natur, ac mae'r nifer wedi cynyddu eto eleni. Mae nifer fawr yn cyfrannu lluniau a chynnal trafodaethau am bob agwedd o fyd natur a'r amgylchedd.

Cyfrannodd aelodau o dîm rheoli Llên Natur at ddigwyddiadau Bioblitz yn ystod y flwyddyn.

**ix) Cyhoeddi Llyfrau**

**a. Dyddiaduron 1820-1827 Owen Edwards, Penmorfa** Mae gwirfoddolwyr wedi parhau i gyfrannu at baratoi cyfrol yn canolbwyntio ar agweddau perthnasol i fyd natur a'r amgylchedd. Oherwydd bod gormod o ddeunydd i'w gyhoeddi ar ffurf llyfr, awgrymir cyhoeddi fersiwn llawn ar-lein a dim ond crynodeb yn y llyfr. Cwblhawyd nifer o benodau. Cynhaliwyd sgwrs gyda'r Lolfa a phenodwyd rhywun i baratoi'r llyfr i'w gyhoeddi.

Cwblhawyd llawr o'r gwaith o baratoi mapiau rhyngweithiol yn cofnodi lleoliadau yn y dyddiadur a'u cefndir. Cynhaliwyd trafodaethau gyda Swyddog Treftadaeth Parc Cenedlaethol Eryri a oedd yn frwdfrydig i wneud defnydd o'r gwaith, er enghraifft ar gyfer byrddau gwybodaeth, teithiau maes, arddangosfa a sgyrsiau.

**b. Llyfr Cymraeg ynglŷn â bywyd Edward Llwyd** Mae Gwasg y Brifysgol wedi cytuno i gyhoeddi'r llyfr. Apwyntiwyd golygydd a dosbarthwyd gwaith i nifer o awduron. Mae Llywydd y Gymdeithas wedi cwblhau pennod ar Edward llwyd y naturiaethwr ac mae aelod wrthi'n paratoi pennod am ei waith daearegol.

**x) Apiau adnabod**

**a. Planhigion** Mae aelod o'r PG wedi bod yn gyfrifol am drefnu i'r ap Pl@ntNet gynnwys enwau Cymraeg ar blanhigion. Mae'r gwaith yn parhau gyda mwy o aelodau o'r Gymdeithas bellach yn cyfrannu.

**b. Adar** Mae'r un aelod wrthi'n ceisio cysylltu â gweinyddwyr yr ap Merlin gyda'r bwriad o ofyn iddynt gyflwyno enwau Cymraeg ar adar a chynnig cymorth i wneud felly.

**5. CASGLIAD**

Mae'r Gymdeithas yn hyrwyddo gweithgareddau yn ymwneud a Byd Natur. Mae ymateb cadarnhaol gan yr aelodau gan fod cefnogaeth deilwng ar bob taith sydd wedi ei threfnu ym mhob rhan o Gymru ac i'r holl weithgareddau eraill a drefnir.

Iona Evans. Cadeirydd.

**6. ADOLYGIAD ARIANNOL**

Mae'r fantolen yn dangos fod £25.5mil wrth gefn sy'n £8 mil yn llai na llynedd. Mae rhan sylweddol o'r wahaniaeth o ganlyniad i fethu â chasglu taliadau aelodaeth drwy ddebydau uniongyrchol yn ystod y flwyddyn ariannol 2024/25. Digwyddodd hynny oherwydd problemau gyda'r banc yn dilyn marwolaeth cyn Drysorydd y Gymdeithas a phroblemau technegol gyda meddalwedd ar gyfer casglu debyd uniongyrchol. Penderfynodd yr Ymddiriedolwyr gasglu dau daliad oddi wrth aelodau sydd yn dalu drwy debyd uniongyrchol yn ystod 2025/26. Rhoddir gwybod i'r aelodau ymlaen llaw.

**Adroddiad yr archwiliwr annibynnol i ymddiriedolwyr Cymdeithas Edward Llwyd**

Adroddaf i'r ymddiriedolwyr ar fy archwiliad o gyfrifon yr elusen uchod ("yr Ymddiriedolaeth") am y flwyddyn a ddaeth i ben 30 Mehefin 2025.

**Cyfrifoldebau a sail yr adroddiad**

Fel ymddiriedolwyr elusen, rydych yn gyfrifol am baratoi'r cyfrifon yn unol â gofynion Deddf Elusennau 2011 ("y Ddeddf").

Adroddaf mewn perthynas â'm harchwiliad o gyfrifon yr Ymddiriedolaeth a gwblhawyd o dan adran 145 o Ddeddf 2011 ac wrth ymgymryd â'm harchwiliad, dilynais yr holl Gyfarwyddiadau cymwys a roddwyd gan y Comisiwn Elusennau o dan adran 145(5)(b) o'r Ddeddf.

**Datganiad yr archwiliwr annibynnol**

Rwyf wedi cwblhau fy archwiliad. Cadarnhaf nad oes unrhyw faterion wedi dod i'm sylw mewn cysylltiad â'r archwiliad sy'n rhoi achos i mi gredu:

- na chafodd cofnodion cyfrifyddu eu cadw yn unol ag adran 130 o'r Ddeddf Elusennau; neu
- nid yw'r cyfrifon yn cyfateb â'r cofnodion cyfrifyddu; neu
- nid yw'r cyfrifon yn cydymffurfio â'r gofynion cymwys yn ymwneud â ffurf a chynnwys cyfrifon a amlinellir yn Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 heblaw unrhyw ofyniad bod y cyfrifon yn rhoi darlun 'gwir a theg' nad yw'n fater i'w ystyried fel rhan o archwiliad annibynnol.

Nid oes gennyf unrhyw bryderon ac nid wyf wedi dod ar draws unrhyw faterion eraill mewn cysylltiad â'r archwiliad y dylid tynnu sylw atynt yn yr adroddiad hwn er mwyn sicrhau dealltwriaeth briodol o'r cyfrifon.

**Laura Adams**
**W. J. Matthews a'i Fab**
**Cyfrifwyr Siartredig**
**11-15 Y Bont Bridd**
**Caernarfon,**
**Gwynedd.**

**Dated:** 27.11.2025.

**CYMDEITHAS EDWARD LLWYD - RHIF ELUSEN 1126027**

**Cyfrif Incwm a Gwariant 01/07/2024 hyd 30/06/2025**

| **INCWM** | **2024-2025** | **2023-2024** | **GWARIANT** | | **2024-2025** | **2023-2024** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Tal Aelodaeth | 1,040.06 | 12,034.00 | Argraffu: | Cylchgronnau | 4,970.00 | 6,975.00 |
| Gwerthiannau: | | | Deunydd i werthu: | Print Arall | 938.82 | 268.99 |
| Llyfrau CELI | 0.00 | 82.02 | | eitemau CELI | 306.37 | 407.34 |
| Print Arall | 0.00 | 573.87 | Digwyddiadau | BioFlits | 250.00 | 430.00 |
| Dillad | 0.00 | 105.00 | Post / Dosbarthu | Llyfrau / Cylchgronnau | 2,800.00 | 1,600.00 |
| Arall | 662.14 | 180.00 | | Eraill | 0.00 | 0.00 |
| Incwm Cyfarfod Blynyddo | 3,855.00 | 1,527.29 | Eisteddfod | | 4,055.22 | 4,182.10 |
| | | | Cyfarfod Blynyddol | | 4,210.00 | 4,016.29 |
| Digwyddiadau | 550.50 | 280.00 | Tech Wybodaeth | Gwefan | 514.17 | 1,086.00 |
| Llog Banc | 653.61 | 797.95 | | Arall | 0.00 | 0.00 |
| Rhoddion | 4,759.00 | 73.00 | Pwyllgor | | 0.00 | 14.28 |
| Incwm Arall: | | | Costau Eraill | Gwobr Dysgwr | 0.00 | 150.00 |
| Trip Blynyddol | 28,440.00 | 10,731.00 | Costau Aelodau | Teithio / arall | 109.16 | 25.34 |
| Llên Natur hen gyfrif | 33.08 | | Costau Banc | | 870.37 | 1,082.67 |
| | | | Gwariant Arall | Penmorfa, archwilio | 0.00 | 170.00 |
| | | | | Yswiriant | 562.11 | 448.08 |
| | | | | Trip Blynyddol | 28,440.00 | 10,731.00 |
| | **39,993.39** | **26,384.13** | | | **48,026.22** | **31,587.09** |
| Mewn Llaw 01/07/2024 | | | | Mewn Llaw 30/06/2025 | | |
| Cyfrif y Trysorydd | 459.62 | | | Cyfrif y Trysorydd | 420.37 | |
| Cyfrif Busnes | 33,044.93 | | | Cyfrif Busnes | 25,051.35 | |
| | **33,504.55** | | | | **25,471.72** | |
| | 73,497.94 | | | | 73,497.94 | 0.00 |
| | | | | **Asedau mewn llaw** | | |
| | | | | Llyfrau | 450 | 450 |
| | | | | [signature] | 01-12-25 | |
| | | | | Amanda Skull | Trysorydd | |

# Accounts

Cymdeithas Edward Llwyd

Cymdeithas Genedlaethol Naturiaethwyr Cymru

Elusen Gofrestredig rhif 1126027

**<u>ADRODDIAD I'R COMISIWN ELUSENNAU</u>**

**<u>AM Y CYFNOD 01.07.2023 I 30.06.2024</u>**

**<u>ENW'R GYMDEITHAS</u>: CYMDEITHAS EDWARD LLWYD**

**RHIF COFRESTRU: 1126027**

## 1. <u>ENWAU YMDDIRIEDOLWYR:</u>

1 Goronwy Wynne: Llywydd

2. Duncan Brown: Is Lywydd

3. T wm Elias: Is Lywydd

4. Iona Evans: Cadeirydd

5. Hywel Madog Jones: Is Gadeirydd

6. Gareth Jones: Ysgrifennydd

7. Margaret Roberts/ 8. Amanda Skull : Trysoryddion

9. Jackie Willmington: Ysgrifennydd Cofnodion

10. Elizabeth Roberts: Trefnydd y Gynhadledd

11. Gwyn Roberts: Golygydd y Cylchlythyr

12. Dafydd Lewis: Ysgrifennydd Aelodaeth a Golygydd y Naturiaethwr

13. Iwan Roberts: Trefnydd teithiau'r Gogledd Ddwyrain

14. Eirian Davies: Trefnydd teithiau'r De a'r Canolbarth

15. John Griffith: Cyd drefnydd teithiau Gogledd Orllewin a Threfnydd Gwyliau

16. Haf Meredydd: Aelod o'r Pwyllgor.Gwaith

17. Rhisiart ap Gwilym: Aelod o'r Pwyllgor.Gwaith

18. Alan Williams: Aelod o'r Pwyllgor.Gwaith

19. Dominig Kervegant Aelod o'r Pwyllgor.Gwaith

20. Shelagh Fishlock Aelod o'r Pwyllgor.Gwaith

## 2. STRWYTHUR, LLYWODRAETHU A RHEOLIAEth

### i) Yr ymddiriedolwyr a sut y byddant yn cael eu penodi.

Mae'r Ymddiriedolwyr i gyd yn aelodau o'r Gymdeithas ac fe'u hetholir yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Ni chaiff Ymddiriedolwyr eu talu.

Ym mis Hydref bob blwyddyn cynhelir Cyfarfod Blynyddol fel rhan o benwythnos Cynhadledd y Gymdeithas. Mae pob aelod yn derbyn manylion trwy'r post am y penwythnos gyda chyfle i gofrestru. Cynhelir y Cyfarfod Blynyddol ar brynhawn Sadwrn y Gynhadledd. Anfonir manylion am y cyfarfod at yr aelodau sydd wedi cofrestru pythefnos ymlaen llaw gan gynnwys yr agenda a chofnodion Cyfarfod y flwyddyn gynt. Rhoddir dogfennau hefyd ar wefan a thudalen Weplyfr y Gymdeithas ac mae ychydig o gopïau caled ar gael yn y Cyfarfod.

Cyn y Cyfarfod Blynyddol mae'r Ysgrifennydd yn cysylltu â'r holl ymddiriedolwyr i ofyn a ydynt yn fodlon cael eu hailethol i'r Pwyllgor Gwaith a dal ati gyda'i swydd lle bo'n berthnasol.

### ii) Y Pwyllgor Gwaith (PG)

Mae'r Ymddiriedolwyr yn aelodau o'r Pwyllgor Gwaith (PG) sydd yn rheoli'r Gymdeithas ar ran yr aelodau. Cynhelir pedwar cyfarfod o'r PG bob blwyddyn.

Bydd yr Ysgrifennydd yn anfon cais i'r holl ymddiriedolwyr am eitemau i'w rhoi ar agenda'r cyfarfod yna bydd yr agenda yn cael ei rannu cyn y cyfarfod fel bod pob aelod yn cael cyfle i gyfrannu. Bydd Cadeirydd y Gymdeithas yn llywio'r cyfarfodydd. Mae cofnodion manwl yn cael eu cadw o bob cyfarfod gan yr Ysgrifennydd Cofnodion ac yn cael eu hanfon i'r holl Ymddiriedolwyr. Yn y PG dilynol bydd cyfle i gytuno fod y cofnodion yn rhai cywir ac yna eu cyhoeddi ar wefan y Gymdeithas.

Os bydd y Swyddogion angen barn aelodau'r PG ar fater brys bydd modd cysylltu gyda phob aelod trwy e-bost a hynny fel arfer dan arweiniad yr Ysgrifennydd.

### iii) Yr Is-bwyllgor Marchnata (PM)

Mae grŵp o aelodau'r PG yn ffurfio is-bwyllgor dan arweiniad yr Is-gadeirydd sy'n adrodd yn ôl i'r PG. Prif bwrpas y PM yw paratoi presenoldeb y Gymdeithas yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

### iv) Prosiect Llên Natur

Mae Prosiect Llên Natur yn adnodd pwysig dan adain Y Gymdeithas. Mae ychydig o aelodau'r PG yn rheoli prosiect Llên Natur ac yn adrodd yn ôl i'r PG. Mae'r Prosiect yn codi ymwybyddiaeth o faterion amgylcheddol ymhlith y cyhoedd (yn ogystal ag aelodau'r Gymdeithas) drwy gynnal gwefan a thudalen Weplyfr a chyhoeddi bwletin a ddosbarthir drwy e-bost.

## 3. AMCANION A GWEITHGAREDDAU'R GYMDEITHAS.

Mae'r Gymdeithas yn croesawu pawb sydd â diddordeb ym myd natur ac yn yr amgylchedd a threftadaeth naturiol Cymru. Ei hamcan yw cynyddu ymwybyddiaeth, dealltwriaeth a gwerthfawrogiad ohonynt. Cymraeg yw iaith y Gymdeithas. Ymdrechir i hybu'r defnydd o Gymraeg yn y meysydd amgylcheddol a rhoddir croeso i aelodau sy'n dysgu Cymraeg.

- Cynhelir teithiau maes, Cynhadledd Flynyddol, stondin a darlith yn yr Eisteddfod Genedlaethol a gwyliau.
- Cyhoeddir dau gylchgrawn, y Cylchlythyr a'r Naturiaethwr.
- Cynhelir dwy wefan, un yn delio â gweithgareddau'r Gymdeithas a'r llall yn trin materion amgylcheddol.
- Ymgymerir â thrawsgrifio a dadansoddir hen ddyddiaduron gyda chynnwys perthnasol i fyd natur a'r amgylchedd.
- Cyhoeddir rhestrau o enwau Cymraeg safonol ar rywogaethau.

## 4. CYFLAWNIADAU A PHERFFORMIAD

i).**Teithiau Maes** Cynhaliwyd tair taith faes bron bob Sadwrn mewn tri lleoliad yng Nghymru. Cyhoeddir manylion y teithiau, gan gynnwys y man cyfarfod, fesul mis drwy wefan ac ap ffôn symudol y Gymdeithas. Cynhaliwyd ambell daith ychwanegol yng nghanol yr wythnos neu gyda'r nos yn ystod yr haf.

Cafwyd y teithiau eu harwain gan aelodau'r Gymdeithas a hefyd gan staff mudiadau sydd yn ymwneud a byd natur megis y Parciau Cenedlaethol ac Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru. Ar ddiwedd y teithiau cafodd luniau o'r teithiau eu rhannu ar dudalen Weplyfr y Gymdeithas a chafwyd ymateb ffafriol i'r lluniau gan sawl aelod.

**ii) Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd** Darparwyd safle ar faes yr Eisteddfod ym mis Awst 2023. Roedd yn gyfle i ddenu aelodau newydd, i ddarparu paned a chroeso i unrhyw un fyddai'n ymweld â'r babell ac yn hyrwyddo'r Gymdeithas i bawb oedd yn ymweld. Dangoswyd posteri a baratowyd i gynyddu gwybodaeth am hanes a bywyd gwyllt yr ardal.

Cynhaliwyd cystadleuaeth dan adain yr Eisteddfod am erthygl addas i'r Naturiaethwr. Mae'r Gymdeithas yn cynnig £200 o wobr ac roedd 4 wedi ymgeisio.

Traddodwyd darlith y Gymdeithas gan Cathryn Charnell White o Brifysgol Aberystwyth a drafododd y tywydd yn Llenyddiaeth Cymru. Daeth cynulleidfa deilwng i gefnogi a derbyniwyd adborth ffafriol.

Cynigiwyd dwy daith maes a oedd ar agor i'r cyhoedd.

**iii) Gwyliau'r Gymdeithas Ebrill 2024**_Anfonwyd manylion i holl aelodau'r Gymdeithas am y gwyliau a drefnwyd yng Ngwesty Llwyngwair, Trefdraeth, Sir Benfro. Bu pedwar

aelod ar hugain yn aros yn y gwesty gydag ambell aelod ychwanegol yn ymuno â rhai o'r gweithgareddau. Cafwyd wythnos o deithiau dan ofal arweinwyr lleol gan ddangos hyfrydwch a byd natur yr ardal i'r rhai a gefnogodd y gwyliau. Roedd cyfle i gymdeithasu a mwynhau'r ardal.

Mae'r teithwyr yn talu cost lawn y gwyliau; nid oes cost net i'r Gymdeithas.

**iv) Y Gynhadledd Flynyddol** Cynhaliwyd Cynhadledd yng ngwesty y Diplomat yn Llanelli ar benwythnos 20 – 22 Hydref 2023. Bu sgwrs am yr Ardd Fotaneg nos Wener, taith gerdded yn ardal Llanelli ddydd Sadwrn, sgwrs nos Sadwrn am hanes y Mynydd Du a thaith fore Sul i weld olion y mwyngloddio a sut mae Byd Natur yn hawlio ei le yn ôl erbyn hyn. Bu 23 aelod yn bresennol yn y Cyfarfod Blynyddol brynhawn Sadwrn 21 Hydref.

**v) Pwyllgorau** Cynhaliwyd pedwar cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith:-

18 Medi 2023 (yn rhithiol)

16 Tachwedd 2023 (yn rhithiol)

15 Chwefror 2024 (yn rhithiol)

16 Mai 2024 (yn Neuadd Rhydypennau)

Cynhaliwyd pum cyfarfod rhithiol o'r Is-bwyllgor Marchnata dan gadeiryddiaeth Is-gadeirydd y Gymdeithas.

**vi) Y Cylchlythyr** Cynhyrchwyd dau rifyn o'r Cylchlythyr yn Haf 2023 a Chwefror 2024. Erbyn hyn mae'n llawn hanesion y teithiau a gynhaliwyd yn ystod y chwe mis blaenorol. Mae'n gylchgrawn deniadol a swmpus sydd yn lliwgar iawn ac yn cael ei anfon i bob aelod drwy law'r argraffwyr Gwasg Y Lolfa.

**vii) Y Naturiaethwr** Cynhyrchwyd dau rifyn o'r cylchgrawn *Y Naturiaethwr* yn ystod y flwyddyn a'u hanfon allan yr un pryd â'r Cylchlythyr. Mae'r *Naturiaethwr* yn llawn erthyglau difyr am bob agwedd o fyd natur gyda chyfle i unrhyw aelod gyfrannu. Yn y tudalennau canol ceir detholiad o eitemau o fwletin Llên Natur "Glas". Mae'r Gymdeithas yn cynnig gwobr am erthygl i'r Naturiaethwr gan ddysgwr y Gymraeg.

**viii) Prosiect Llên Natur** .Dosbarthir Bwletin Prosiect Llên Natur "Glas" drwy e-bost i unrhyw un sy'n cofrestru, boed yn aelod o'r Gymdeithas ai peidio. Anelir at gynhyrchu rhifyn bob mis ond collwyd un neu ddau rifyn eleni oherwydd salwch y gwirfoddolwyr allweddol.

Mae miloedd o bobl yn dilyn "Cymuned Llên Natur", grŵp Weplyfr Llên Natur, ac mae'r nifer yn dal i gynyddu. Mae nifer fawr yn cyfrannu lluniau a holi am wybodaeth am bob agwedd o fyd natur a'r amgylchedd.

Cyfrannodd aelodau o dîm rheoli Llên Natur at ddigwyddiadau Bioblitz yn ystod y flwyddyn.

**ix) Cyhoeddi Llyfrau** Mae gwirfoddolwyr wedi chwarae rhan allweddol wrth baratoi i gyhoeddi cyfrol yn trafod dyddiaduron 1820-1827 Owen Edwards, ffermwr o Benmorfa, yn canolbwyntio ar agweddau perthnasol i fyd natur a'r amgylchedd.

Mae Is-gadeirydd y Gymdeithas wedi rhoi cymorth gyda pharatoi llyfr yn y Gymraeg am Edward Llwyd.

## 5. CASGLIAD

Mae'r Gymdeithas yn hyrwyddo gweithgareddau yn ymwneud a Byd Natur. Mae ymateb cadarnhaol gan yr aelodau gan fod cefnogaeth deilwng ar bob taith sydd wedi ei threfnu ym mhob rhan o Gymru ac i'r holl weithgareddau eraill a drefnir.

Iona Evans. Cadeirydd.

## 6. ADOLYGIAD ARIANNOL

Mae'r fantolen yn dangos fod £33.5mil wrth gefn. Er bod £5200 o wahaniaeth rhwng y gwariant a'r incwm, penderfynodd yr Ymddiriedolwyr nad oedd angen gweithredu ar frys ond cytunwyd i fonitro'r sefyllfa ac ystyried codi'r tâl aelodaeth yn y flwyddyn 2026/7.

## CYMDEITHAS EDWARD LLWYD - RHIF ELUSEN 1126027
## Cyfrif Incwm a Gwariant 01/07/2023 hyd 30/06/2024

**INCWM**

| | | **2023-2024** | ***2022-2023*** |
|---|---|---|---|
| Tal Aelodaeth | | 12,034.00 | *13,183* |
| Gwerthiannau | Llyfrau CELl | 82.02 | *305* |
| | Print Arall | 573.87 | *743* |
| | Dillad | 105.00 | *52* |
| | Arall | 180.00 | *52* |
| Incwm Cyfarfod Blynyddol | | 1,527.29 | *5,968* |
| Digwyddiadau | Ym Genedlaethol | 280.00 | *400* |
| Llog Banc | | 797.95 | *326* |
| Rhoddion | | 73.00 | *370* |
| Incwm Arall | Trip 2024-Trefdraeth | 10,731.00 | *11,340* |
| | | **26,384.13** | ***32,739*** |
| Mewn llaw 01/07/2023 | | | |
| Cyfrif y Trysorydd | | *380.38* | |
| Cyfrif Busnes | | *38,327.13* | |
| | | | ***38,707.51*** |
| | | | 65,091.64 |

**GWARIANT**

| | | **2023-2024** | ***2022-2023*** |
|---|---|---|---|
| Argraffu: | Cylchgronnau | 6,975.00 | *6,615* |
| Deunydd i werthu | Print Arall | 268.99 | *721* |
| | eitemau Cell | 407.34 | *0* |
| Digwyddiadau | BioFlits | 430.00 | *250* |
| Post/Dosbarthu | Llyfrau/Cylchgronnau | 1,600.00 | *2,735* |
| | Eraill | 0.00 | *19* |
| Eisteddfod | | 4,182.10 | *4,726* |
| Cyfarfod Blynyddol | | 4,016.29 | *4,944* |
| Tech Wybodaeth | Gwefan | 1,086.00 | *585* |
| | Arall | 0.00 | *46* |
| Pwyllgor | | 14.28 | *0* |
| Costau Eraill | Gwobr Dysgwr | 150.00 | *0* |
| Costau Aelodau: | Teithio | 25.34 | *280* |
| Costau Banc | | 1,082.67 | *1,060* |
| Gwariant Arall | penmorfa archwilio | 170.00 | *160* |
| | Yswiriant | 448.08 | *431* |
| 2024 - Taith Trefdraeth | Trip 2024 | 10,731.00 | *11,340* |
| | | **31,587.09** | ***33,912*** |
| Mewn llaw 30/06/2024 | | | |
| Cyfrif y Trysorydd | | 459.62 | |
| Cyfrif Busnes | | 33,044.93 | |
| | | **33,504.55** | |
| | | 65,091.64 | |

**Asedau mewn llaw**

Llyfrau 450

***Yr wyf wedi archwilio cofnodion Incwm a Gwariant Cymdeithas Edward Llwyd am 2023/24 ac maent yn adlewyrchiad cywir o sefyllfa ariannol Y Gymdeithas am y cyfnod hwn***

William G Strain Arolygwr

Margaret Roberts Trysorydd

COMISIWN ELUSENNAU
AR GYFER CYMRU A LLOEGR

**Adroddiad yr archwiliwr annibynnol ar y cyfrifon**

| **Adran A** | **Adroddiad yr Archwiliwr Annibynnol** |
|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Adroddiad i ymddiriedolwyr/aelodau** | CYMDEITHAS EDWARD LLWYD | | |
| **Ar y cyfrifon am y flwyddyn yn diweddu** | 30 MEHEFIN 2024 | **Rhif yr Elusen (os oes)** | 1126027 |
| **I'w gweld ar dudalennau** | 0 | | |

Adroddaf i'r ymddiriedolwyr ar fy archwiliad o gyfrifon yr elusen uchod ("yr Ymddiriedolaeth") am y flwyddyn yn diweddu 30/06/2024

**Cyfrifoldebau a'r sail adrodd**

Fel yr ymddiriedolwyr elusen, rydych yn gyfrifol am baratoi'r cyfrifon yn unol â gofynion Deddf Elusennau 2011 ("y Ddeddf").

Adroddaf mewn perthynas â'm harchwiliad o gyfrifon yr Ymddiriedolaeth a gwblhawyd o dan adran 145 o Ddeddf 2011 ac wrth ymgymryd â'm harchwiliad, dilynais y Cyfarwyddiadau cymwys a roddwyd gan y Comisiwn Elusennau o dan adran 145(5)(b) o'r Ddeddf.

**Datganiad yr archwiliwr ~~annibynnol~~**

[~~Roedd incwm gros yr elusen yn fwy na £250,000 ac rwy'n gymwysedig i gynnal yr archwiliad trwy fod yn aelod cymwysedig o~~ [rhowch enw corff rhestredig cymwys]]. *Dilëwch [ ] os nad yw'n gymwys.*

Rwyf wedi cwblhau fy archwiliad. Cadarnhaf nad yw unrhyw faterion perthnasol wedi dod i'm sylw mewn perthynas â'r archwiliad (~~heblaw'r hyn a ddatgelir isod~~ *) sy'n rhoi achos i mi gredu, mewn unrhyw agwedd perthnasol:

- ~~ni chafodd cofnodion cyfrifyddu eu cadw yn unol ag adran 130 o'r Ddeddf Elusennau; neu~~
- ~~nid yw'r cyfrifon yn cyfateb â'r cofnodion cyfrifyddu; neu~~
- ~~nid yw'r cyfrifon yn cydymffurfio â'r gofynion cymwys yn ymwneud â ffurf a chynnwys cyfrifon a amlinellir yn Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 heblaw unrhyw ofyniad bod y cyfrifon yn rhoi darlun 'gwir a theg' nad yw'n fater i'w ystyried fel rhan o archwiliad annibynnol.~~

Nid oes unrhyw bryderon gennyf ac nid wyf wedi dod ar draws unrhyw faterion eraill mewn perthynas â'r archwiliad y dylid dwyn sylw atynt yn yr adroddiad hwn er mwyn sicrhau dealltwriaeth briodol o'r cyfrifon.
**Dilëwch y geiriau mewn cromfachau os nad ydynt yn gymwys.*

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Llofnodwyd:** | William G Strain | **Dyddiad:** | 3 Hydref 2024 |
| **Enw:** | WILLIAM G STRAIN | | |

| | |
|---|---|
| **Cymhwyster (cymwysterau) neu gorff proffesiynol perthnasol (os oes):** | |

| | |
|---|---|
| **Cyfeiriad:** | Aberafon |
| | Abersoch |
| | Gwynedd |

| **Adran B** | **Datgeliad** |
|---|---|

Cwblhewch dim ond os oes angen i'r archwiliwr dynnu sylw at faterion o bryder (gweler CC32, Archwiliad annibynnol o gyfrifon elusennau: cyfarwyddiadau a chanllawiau i archwilwyr).

| | |
|---|---|
| **Rhowch fanylion yma am unrhyw eitemau yr hoffai'r archwiliwr eu datgelu** | |

**CYMDEITHAS EDWARD LLWYD**

England & Wales - Charity number 1126027

# Accounts

Cymdeithas Edward Llwyd

Cymdeithas Genedlaethol Naturiaethwyr Cymru

Elusen Gofrestredig rhif 1126027

**ADRODDIAD I'R COMISIWN ELUSENNAU AM Y FLWYDDYN 2022-2023**

ENWAU'R YMDDIRIEDOLWYR

1.GORONWY WYNNE (LLYWYDD)

2.DUNCAN BROWN (IS LYWYDD)

3.TWM ELIAS (IS LYWYDD)

4.IONA EVANS (CADEIRYDD)

5.HYWEL MADOG JONES ( IS GADEIRYDD A THREFNYDD TEITHIAU MAES G.O)

5.MARGARET ROBERTS (TRYSORYDD)

6.GARETH WYN JONES (YSGRIFENNYDD)

7.JACKIE WILLMINGTON (YSGRIFENNYDD COFNODION)

8.ROB EVANS (YSGRIFENNYDD AELODAETH)

9.DAFYDD LEWIS ( GOLYGYDD Y NATURIAETHWR)

10.GWYN ROBERTS (GOLYGYDD Y CYLCHLYTHYR)

11.ELIZABETH ROBERTS (TREFNYDD Y GYNHADLEDD)

12.IWAN ROBERTS (TREFNYDD TEITHIAU MAES Y GOGLEDD DDWYRAIN)

13.EIRIAN DAVIES (TREFNYDD TEITHIAU MAES Y DE A'R CANOLBARTH)

14.CARYS PARRY (TREFNYDD GWYLIAU)

15.JOHN GRIFFITH (AELOD O'R PWYLLGOR GWAITH)

16.ALAN WILLIAMS ( PG )

17.HAF MEREDYDD ( PG )

81.DOMINIG KERVEGANT ( PG )

18.RHISIART AP GWILYM ( PG )

/..2

**STRWYTHR/SUT CAIFF EI REOLI.**

Trefnir cyfarfod o'r ymddiriedolwyr bedair gwaith y flwyddyn ar y 3ydd dydd Iau.

*mis Chwefror

*mis Mai

*mis Awst

*mis Tachwedd

Yn y gorffennol byddai'r Ymddiriedolwyr yn cyfarfod wyneb yn wyneb yn festri capel Noddfa yn Rhydypennau ond erbyn hyn mae cyfarfodydd ar y wê trwy gyfrwng Zoom neu Meet yn arbed llawer o drafeilio yn ystod misoedd y gaeaf ac yn help i'r amgylchedd.

Mae'r pwyllgor Marchnata yn cyfarfod yn rhithiol erbyn hyn hefyd.

Bydd yr Ysgrifennydd yn anfon cais i'r holl ymddiriedolwyr am eitemau i'w rhoi ar agenda'r cyfarfod yna bydd yr agenda yn cael ei rannu cyn y cyfarfod fel bod pob aelod yn cael cyfle i gyfrannu.

Bydd Cadeirydd y Gymdeithas yn llywio'r cyfarfodydd.

Mae cofnodion manwl yn cael eu cadw o bob cyfarfod gan yr Ysgrifennydd Cofnodion ac yn cael eu anfon i'r holl Ymddiriedolwyr. Yn y pwyllgor dilynol bydd cyfle i gytuno fod y cofnodion yn rhai cywir ac yna eu rhoi ar wefan y Gymdeithas.

Ni fydd unrhyw benderfyniad yn cael ei gytuno tu allan i'r pedwar cyfarfod yma. Os bydd y Swyddogion angen barn aelodau'r pwyllgor ar fater brys bydd modd cysylltu gyda phob aelod trwy gyfrwng y wê a hynny fel arfer dan arweiniad yr Ysgrifennydd.

**Recriwtio Ymddiriedolwyr**

Mae pob un o'r Ymddiriedolwyr yn aelodau o'r Gymdeithas.

Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol o'r Gymdeithas ym mis Hydref 2022 yng Ngwesty'r Celt yng Nghaernarfon.

Arweiniwyd y cyfarfod gan Lywydd Y Gymdeithas

Mae'r Cyfarfod Blynyddol yn agored i holl aelodau'r Gymdeithas ac fe hysbysir y Cyfarfod Blynyddol yn y Cylchlythyr sy'n cael ei ddosbarthu i bob aelod.

/...3

Bydd agenda'r Cyfarfod Blynyddol yn cael ei roi ar y wê rhyw wythnos cyn y cyfarfod a bydd hysbyseb am y cyfarfod i atgoffa aelodau yn cael ei rannu ar safle wê'r Gymdeithas a hefyd ar Weplyfr y Gymdeithas.

Cyn y Cyfarfod Blynyddol bydd yr holl Ymddiriedolwyr yn cael gwahoddiad i aros a bydd cyfle i'r aelodau fydd yn dymuno roi gorau i'r gwaith adael.

Bydd cyfle yn y Cyfarfod Blynyddol i gyfethol aelodau newydd.

**<u>Gweithgareddau ac Amcanion</u>**

Cymdeithas ar gyfer pawb sydd â diddordeb ym myd natur ac yn yr amgylchedd a threftadaeth naturiol Cymru. Ei hamcan yw cynyddu ymwybyddiaeth, dealltwriaeth a gwerthfawrogiad ohonynt. Ymdrechir i hybu'r defnydd o Gymraeg yn y meysydd amgylcheddol.

Cymraeg yw iaith y Gymdeithas a rhoddir croeso i aelodau sy'n dysgu Cymraeg.

*Cyhoeddir dau gylchgrawn ddwywaith y Flwyddyn – mis Chwefror a mis Gorffennaf.

*Y Naturiaethwr

*Y Cylchlythyr

Gwasg y Lolfa sy'n argraffu'r ddau gylchgrawn a'r wasg sydd yn postio i'r holl aelodau.

<u>Llen Natur.</u>

Prosiect dan adain y Gymdeithas ydi Llen Natur ac mae llawer o aelodau ar Gymuned Llen Natur yn rhannu pob math o luniau o bob agwedd o fyd natur.

<u>Teithiau Maes</u>

Pob Sadwrn bydd tair taith yn cael eu trefnu. Un yn y Gogledd ddwyrain,un yn y Gogledd orllewin ac un arall yn y De a'r Canolbarth. Bydd y teithiau yn cael eu harwain gan aelodau o'r Gymdeithas ond hefyd mae cydweithio yn digwydd pan gaiff taith gael ei arwain gan aelod o'r RSPB neu Ymddiriedolaeth Gogledd Cymru.  Yn ystod misoedd yr haf trefnir ambell daith gyda'r nos  a chafwyd taith i ymweld a gardd ym Mehefin ac ymunodd nifer o'r aelodau mewn te pnawn. Gweithgaredd poblogaidd arall ar ddechrau'r flwyddyn ydi taith Lobscows lle trefni'r taith fer i gynhesu ac yna cymdeithasu dros ginio. Mae gwybodaeth am yr holl deithiau erbyn hyn ar gael ar safle we'r Gymdeithas.

/..4

Yn Ionawr 2022 a Ionawr 2023 bu i'r Gymdeithas gymeryd rhan yn y prosiect blynyddol dan adain y BSBI lle roedd cyfle i fynd allan ar y pedwar diwrnod cyntaf o'r flwyddyn i chwilio am flodau gwyllt oedd yn blodeuo yr adeg yma.

Cynhadledd y Gymdeithas.

Cynhelir y Cyfarfod Blynyddol fel rhan o Gynhadledd y Gymdeithas. Ym mis Hydref 2022 trefnwyd penwythnos yng Ngwesty'r Celt yng Nghaernarfon. Ar nos Wener a nos Sadwrn cafwyd darlithoedd. Trefnwyd taith ar fore Sadwrn o gwmpas tref Caernarfon oedd yn addas i bob aelod ac yna yn y pnawn trefnwyd taith mwy heriol yn ardal R.Williams Parry. Fore Sul taith ar hyd y Foryd cyn cinio.

Eisteddfod.

Trefnwyd uned yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Nhregaron yn 2022. Cafwyd wythnos lwyddianus gyda nifer o'r aelodau yn ymgymeryd a'r gwaith o wirfoddoli yn yr uned. Mae'r trefniant blynyddol yma yn gyfle i farchnata a hyrwyddo'r Gymdeithas gan ddenu aelodau newydd.

Y Naturiaethwr

Cystadleuaeth i Ddysgwyr - Erbyn hyn mae cystadleuaeth ar gyfer Dysgwyr y Gymraeg yn cael ei noddi gan y Gymdeithas gan ddisgwyl erthygl addas ar gyfer y Naturiaethwr.

Gwyliau'r Gymdeithas.

Mae gwyliau'r Gymdeithas wedi bod yn llwyddianus iawn gan ymweld a Dorset yn 2022. Cafwyd wythnos fendigedig ym mis Mai gyda ugain o aelodau yn ymweld a'r ardal.

**Ar hyn o bryd mae pob swydd o fewn y Gymdeithas wedi ei llenwi gyda'r Ymddiriedolwyr yn barod iawn i gydweithio er budd y Gymdeithas.**

Iona Evans (Tachwedd 2023)

## CYMDEITHAS EDWARD LLWYD - RHIF ELUSEN 1126027

## Cyfrif Incwm a Gwariant 01/07/2022 hyd 30/06/2023

**INCWM**

| | | **2022-2023** | ***2021-2022*** |
|---|---|---|---|
| Tal Aelodaeth | | 13,183 | *12,780* |
| Gwerthiannau | Llyfrau CELl | 305 | *160* |
| | Print Arall | 743 | *21* |
| | Dillad | 52 | *0* |
| | Arall | 52 | *0* |
| Incwm Cyfarfod Blynyddol | | 5,968 | *0* |
| Digwyddiadau | | 400 | |
| Llog Banc | | 326 | *50* |
| Rhoddion | | 370 | *73* |
| Incwm Arall | Trip 2023-Iwerddon | 11,340 | *5,483* |
| Cau Cyfrif | Llen Natur | 0 | *770* |
| | | **32,739** | ***19,337*** |
| Mewn llaw 01/07/2022 | | | |
| Cyfrif y Trysorydd | | *350* | |
| Cyfrif Busnes | | *39,530* | |
| | | ***39,880*** | |
| | | 72,619 | |

**GWARIANT**

| | | **2022-2023** | ***2021-2022*** |
|---|---|---|---|
| Argraffu: | Cylchgronnau | 6,615 | *5,591* |
| Deunydd i werthu | Print Arall | 721 | *0* |
| | Llyfrau CELl | 0 | *837* |
| Digwyddiadau | BioFlits | 250 | *79* |
| Post/Dosbarthu | Llyfrau/Cylchgronnau | 2,735 | *2,472* |
| | Eraill | 19 | *39* |
| Eisteddfod | | 4,726 | *4,522* |
| Cyfarfod Blynyddol | | 4,944 | |
| Tech Wybodaeth | Gwefan | 585 | *646* |
| | Arall | 46 | *280* |
| Pwyllgor | | 0 | *35* |
| Costau Eraill | Gwobr Dysgwr | 0 | *150* |
| Costau Aelodau: | Teithio | 280 | *94* |
| Costau Banc | | 1,060 | *901* |
| Gwariant Arall | | 160 | *110* |
| | Yswiriant | 431 | *432* |
| 2023 - Taith Iwerddon | Trip 2023 | 11,340 | *5,760* |
| | | **33,912** | ***21,948*** |
| Mewn llaw 30/06/2023 | | | |
| Cyfrif y Trysorydd | | 380 | |
| Cyfrif Busnes | | 38,327 | |
| | | **38,707** | |
| | | 72,619 | |

**Asedau mewn llaw**

Llyfrau 600

***Yr wyf wedi archwilio cofnodion Incwm a Gwariant Cymdeithas Edward Llwyd am 2022/23 ac maent yn adlewyrchiad cywir o sefyllfa ariannol Y Gymdeithas am y cyfnod hwn***

William G Strain Arolygwr

Margaret Roberts Trysorydd

C

COMISIWN ELUSENNAU
AR GYFER CYMRU A LLOEGR

# Adroddiad yr archwiliwr annibynnol ar y cyfrifon

## Adran A — Adroddiad yr Archwiliwr Annibynnol

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Adroddiad i ymddiriedolwyr** | Enw'r Elusen<br>CYMDEITHAS EDWARD LLWYD | | |
| **Ar y cyfrifon am y flwyddyn yn diweddu** | 30 MEHEFIN 2023 | **Rhif yr Elusen (os oes)** | 1126027 |
| **I'w gweld ar dudalennau** | -XXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXX | | |

Adroddaf i'r ymddiriedolwyr ar fy archwiliad o gyfrifon yr elusen uchod ("yr Ymddiriedolaeth") am y flwyddyn yn diweddu 30/06/2023

**Cyfrifoldebau'r a'r sail adrodd**

Fel yr ymddiriedolwyr elusen, rydych yn gyfrifol am baratoi'r cyfrifon yn unol â gofynion Deddf Elusennau 2011 ("y Ddeddf").

Adroddaf mewn perthynas â'm harchwiliad o gyfrifon yr Ymddiriedolaeth a gwblhawyd o dan adran 145 o Ddeddf 2011 ac wrth ymgymryd â'm harchwiliad, dilynais yr holl Gyfarwyddiadau cymwys a roddwyd gan y Comisiwn Elusennau o dan adran 145(5)(b) o'r Ddeddf.

**Datganiad yr archwiliwr annibynnol**

[Roedd incwm gros yr elusen yn fwy na £250,000 ac rwy'n gymwysedig i gynnal yr archwiliad trwy fod yn aelod cymwysedig o [XXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXX

Rwyf wedi cwblhau fy archwiliad. Cadarnhaf nad yw unrhyw faterion perthnasol wedi dod i'm sylw mewn perthynas â'r archwiliad (XXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXX sy'n rhoi achos i mi gredu, mewn unrhyw agwedd
perthnasol:

XXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXX
XXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXX
XXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXX
XXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXX
XXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXX

Nid oes unrhyw bryderon gennyf ac nid wyf wedi dod ar draws unrhyw faterion eraill mewn perthynas â'r archwiliad y dylid dwyn sylw atynt yn yr adroddiad hwn er mwyn sicrhau dealltwriaeth briodol o'r cyfrifon.

**Dilëwch y geiriau mewn cromfachau os nad ydynt yn gymwys.*

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Llofnodwyd:** | WILLIAM G STRAIN | **Dyddiad:** | 20 AWST 2023 |
| **Enw:** | WILLIAM G STRAIN | | |
| **Cymhwyster (cymwysterau) neu gorff proffesiynol perthnasol (os oes):** | XXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXXX | | |

**Cyfeiriad:**

| |
|---|
| ABERAFON |
| ABERSOCH |
| GWYNEDD |

| Adran B | Datgeliad |
|---|---|
| | Cwblhewch dim ond os oes angen i'r archwiliwr dynnu sylw at faterion o bryder perthnasol (gweler CC32, Archwiliad annibynnol o gyfrifon elusennau: cyfarwyddiadau a chanllawiau i archwilwyr). |
| **Rhowch fanylion byr yma am unrhyw eitemau yr hoffai'r archwiliwr eu datgelu.** | |